



**GIG**  
CYMRU  
**NHS**  
WALES

Iechyd Cyhoeddus  
Cymru  
Public Health  
Wales

**Unconfirmed Minutes of the Board Meeting  
held on 28 November 2019,  
in Room 3/7, 2 Capital Quarter, Tyndall Street, Cardiff CF10 4BQ**

<b>Present:</b>		
Jan Williams	(JW)	Chair
Tracey Cooper	(TC)	Chief Executive
Jyoti Atri	(JA)	Interim Executive Director of Health and Wellbeing
Kate Eden	(KE)	Non-Executive Director, Vice Chair and Chair of Quality, Safety and Improvement Committee
Dyfed Edwards	(DE)	Non-Executive Director and Chair of Audit and Corporate Governance Committee
Huw George	(HG)	Deputy Chief Executive and Executive Director of Finance and Operations
Stephen Palmer	(StP)	Non-Executive Director
Shantini Paranjothy	(ShP)	Non-Executive Director (University) and Chair of the Knowledge, Research and Information Committee
Judi Rhys	(JR)	Non-Executive Director (Third Sector) and Chair of the People and Organisational Development Committee
Quentin Sandifer	(QS)	Executive Director of Public Health Services/Medical Director
Alison Ward	(AW)	Non-Executive Director (Local Authority)
<b>In Attendance:</b>		
Mark Bellis	(MB)	Director of Policy, Research and International Development (via videoconference)
Julie Bishop (for item 88/2019)	(JB)	Director of Health Improvement and Consultant in Public Health

Sian Bolton	(SB)	Interim Transition Director, Knowledge Directorate
John Boulton	(JB)	Director for NHS Quality Improvement and Patient Safety/1000 Lives
Phil Bushby	(PB)	Director of People and Organisational Development
Helen Bushell	(HB)	Board Secretary and Head of Board Business Unit
Helena Herklots (for item 83/2019)	(HH)	Older Peoples Commissioner
John Lawson (for item 91/2019)	(JL)	Chief Risk Officer
Lucy O'Loughlin (for item 88/2019)	(LO)	Consultant Lead for the Obesity and Nutrition Programme
Reanne Reffell	(RR)	Corporate Governance Officer (Secretariat)
<b>Communication Support</b>		
Rhian Huws		Cwmni Canna Cyfyngedig (simultaneous translation)
Jamie Topp		Digital Assistant
<b>Apologies:</b>		
Rhiannon Beaumont-Wood	(RB-W)	Executive Director of Quality, Nursing and Allied Health Professionals
Stephanie Wilkins	(SW)	Representative of Staff Partnership Forum

*The meeting commenced at 09:00*

<b>PHW80/2019 Welcome</b>
<i>HH joined the meeting</i>
JW opened the meeting and welcomed all present, noting the use of the Board Etiquette.
JW also welcomed all those joining via livestreaming, confirming the availability of papers on Public Health Wales <a href="#">internet</a> . The Board welcomed contributions in Welsh and JW highlighted the availability of simultaneous translation.
<b>PHW81/2019 Apologies</b>
The Board <b>noted</b> the apologies for absence.
<b>PHW82/2019 Declarations of Interest</b>
There were no declarations of interest made in addition to those on the declarations of interest register.

**PHW83/2019 Strategic Partnership**

JW extended a warm welcome to Helena Herklots, attending the Board to present her the work as the Older People's Commissioner and discuss areas of joint interest with Public Health Wales.

HH began by outlining her role as Older People's Commissioner, and the legal powers of the Office, to hold public bodies to account for their engagement with older people. She summarised the three main priorities of the Office: tackling abuse (physical, financial or emotional); challenging ageism and discrimination; and ageing well, ensuring that every adult had the opportunity to age well as a valued member of their community. HH expanded on these priorities throughout her presentation.

HH set out her ambition to make Wales a great place for older people, addressing key barriers facing older people, including in transport, benefits, mental health and poverty. HH was intent on combating everyday ageism and spearheading a national approach to valuing the contribution that older people could make to Welsh society. She noted the alignment of the ageing well agenda with Public Health Wales' strategic priority 1, influencing the wider determinants of health.

JB then presented on the breadth of Public Health Wales work to support the older population, including: [Improving Winter Health and Wellbeing in Wales Report](#); the Improvement Cymru focus on supporting care homes to reduce avoidable hospital admissions; falls prevention, medicines' safety and unscheduled care.

MB commented on the work undertaken throughout the year to increase older people's resilience during the winter months, and the establishment of a Violence Prevention Unit in Wales, focused on all types of violence; he proposed engagement with the Commissioner's Office on the prevention of violence against older people.

**Action: MB**

Board members welcomed the presentation and the emphasis on celebrating older people's contribution to society; a wide-ranging discussion followed, including: the need for long term infrastructure planning, in both urban and rural settings; the balance needed to manage professionals' and individuals' assessment of risk; gender inequalities in older age; measurements of happiness and satisfaction in older age.

That led on to a discussion on the development of key performance indicators and the use of StatsWales data. SB offered the assistance of the Knowledge Directorate Observatory in supporting HH in the ongoing development of quality measures.

**ACTION: SB**

<p>Board members noted the intergenerational approach being taken, with the support of Bangor University, to facilitate sessions between care homes and schools. It was suggested that there may be opportunities for future joint work between the Older People’s Commissioner and the Young Ambassadors (e.g. the Youth Summits).</p> <p><b>ACTION: RB-W</b></p> <p>TC concluded the discussion by highlighting common priorities, including: violence prevention, building winter resilience and identifying what ‘good’ looked like in an ageing population. She agreed to meet with HH to develop this agenda further.</p> <p><b>Action: TC/JA</b></p> <p>On behalf of the Board, JW thanked HH for her inspirational presentation and looked forward to an update in 2020 on the joint work agreed.</p> <p style="text-align: center;"><i>HH left the meeting</i> <i>JB and LO joined the meeting</i></p>
<p><b>PHW84/2019 Minutes from the Board Meeting on 26 September 2019</b></p>
<p>The Board <b>approved</b> the minutes as an accurate record of the meeting of 26 September 2019 (ref <a href="#">4.1.281119</a>).</p>
<p><b>PHW85/2019 Board Action Log</b></p>
<p>The Board <b>noted</b> the Action Log (ref <a href="#">4.1.2.281119</a>) and the progress of three open actions. The Board <b>approved</b> the closure of the actions marked as complete.</p>
<p><b>PHW86/2019 Matters Arising</b></p>
<p>Given the confidential nature of the subject matter, the board would consider an update on EU transition preparedness in the closed session.</p>
<p><b>PHW87/2019 Chief Executive’s report</b></p>
<p>The Board <b>received</b> the Chief Executive’s Report (ref <a href="#">5.281119</a>).</p> <p>TC drew attention to the recent Welsh Public Health Conference, with its focus on national and international prevention, and which included the launch of the Welsh Government ‘Health Weight: Healthy Wales’ strategy. The Conference had provided a significant opportunity to promote ‘Building a Healthier Wales’ and TC commended all those involved in its design, planning and delivery.</p> <p>TC went on to summarise the mid-year accountability meeting with Welsh Government officials and agreed to provide the Board with the presentation slides used at the meeting.</p> <p><b>ACTION: HB</b></p>

The Board noted the recent request to each health body from the Minister for Health and Social Services to complete a self-assessment exercise against the fourteen recommendations set out in a WAO/HIW review of quality governance arrangements in Cwm Taf University Health Board.

Board members would all have the opportunity to comment on the proposed submission.

**ACTION: HB/RB-W**

JB confirmed the launch of Improvement Cymru and the Improvement Cymru Academy. JB thanked the Board, and the communications team for their support during the highly successful 'launch' conference, he agreed to provide a further update outside the meeting.

**Action: JB**

QS provided an update on the TB outbreak in Llwynhendy, and the engagement with Public Health England on the next stage of outbreak control. QS also summarised the ongoing work with Welsh Government and National Resources Wales on strategic priority 5, and the commitment to respond to, and prepare for, the impact of climate change.

JW and KE commented on the success of recent national conferences, commending all those involved and noting the significant corporate expertise in large conference management.

**PHW88/2019 Strategic Priority deep dive (SP3)**

The Board **received** the Strategic Priority 3 deep dive presentation on promoting Healthy Behaviours ([ref 6.281119](#)). JW noted that this was the first of a series of deep dives across all the strategic priorities and thanked JA, JB and LO'L for their participation in it.

In introducing the presentation, JA commented on the behaviours highlighted within strategic priority 3 (smoking, nutrition, alcohol and drug misuse and physical activity) and progress against the annual action plan. JB talked through the engagement with Welsh Government on the Healthy Weight Healthy Wales strategy, outlined a number of achievements in relation to the Building a Healthier Wales approach, and the positive impact on smoking cessation.

In a wide ranging discussion, Board Members noted: the complexity of the agenda; that delivery was dependent in large part on partnership working with others, including Sport Wales, and that Public Health Wales' system leadership role involved advocacy, influencing and the provision of evidence.

Members commented on the lack of outcome measures against a number of areas, noting that Welsh Government had not set targets in the absence of an evidence base. Members were strongly of the view that the Knowledge

Directorate should focus on evidence reviews and on supporting relevant research under each of the strategic priorities.

**ACTION: SB**

Members went on to discuss the recruitment challenges experienced in year; PB outlined the actions in place to support recruitment, including the availability of funding for the Masters in Public Health Qualification. He summarised the work of the People and Organisational Development Committee around reviewing vacancies / bottlenecks in the recruitment process and a planned pan-organisational review of specialist recruitment.

TC confirmed that, at its January 2020 meeting, the full Board would conduct a deep dive into the recruitment process, when members could discuss specialist recruitment in more detail. As the People Strategy was on the same agenda, the Board would have the opportunity to consider the recruitment issues in that wider context.

**ACTION: PB**

In light of the issues around recruitment evidence availability and outcome measurement, together with the nature of the system leadership role, the Board reflected on the intent underpinning Strategic Priority 3 and possible refinement of it. TC confirmed that this would happen as part of the 2020/23 IMTP process, with the proposed IMTP scheduled for presentation in January.

**ACTION: HG**

The Board went on to receive a presentation on Healthy Weight, Healthy Wales and the directorate contribution against this strategy. Members thanks JB and LO`L for their informative presentation, regretful of that the fact that time constraints precluded discussion in the meeting.

TC concluded the deep dive by reflecting on what success looked like for Public Health Wales', referencing the potential for a better system of measurement for strategic priorities. She commented on the need for a creative approach to recruitment, optimum working with academia and a proactive approach to data science and research. TC referenced the need to build momentum around behaviour change whilst also securing investment, and putting programmes in place. This agility would be vital in delivering Building a Healthier Wales.

The Board received **assurance** around in year achievements, noting the recognition of the challenges, the plans in place to mitigate against these and the work that would form part of the 2020/23 IMTP process.

*JB and LO left the meeting*

**PHW89/2019 Integrated Performance Report**

The Board **received** the performance report ([ref 7.1.281119](#)).

**Strategic priorities**

The Board recalled the intention to agree long-term outcomes and appropriate milestone measures in the fourth quarter of 2019/20, for implementation from 2020/21. The Board development session on 12 December 2019 would address these.

The Board noted the progress being made across all strategic priorities outlined within the report.

In considering strategic priority 5, the Board sought an explanation for the upward trend of *C.difficile* rates. QS commented on the contributory factors and agreed to provide a detailed breakdown to Board members outside the meeting.

**Action: QS**

Board members commented on workforce issues being a factor affecting performance across a number of areas, noting the planned 'deep dive' against recruitment at the January 2020 meeting. Given the ongoing Breast Test Wales workforce shortages across NHS Wales, members agreed to ask Health Education and Improvement Wales to meet with the Board/Committee to explore how its remit would address these shortages.

**ACTION HB/PB**

Board Members commented on the issues affecting Breast Test Wales in respect to accommodation and vehicle replacement, and noted the actions underway to combat the issues.

**Financial Performance Month 07**

Members received the month 07 financial performance, noting the receipt of additional capital and the breakeven forecast position. The Board thanked the finance team for their continuing rigorous financial management.

**Workforce Performance / People and Organisational Development**

The Board observed that turnover and sickness absence rates were near to target, and welcomed a focus on training and appraisal. The Board welcomed the executive team and business leads' intention to consider further recruitment methods of specialist / hard to fill roles.

**Quality**

The Board noted performance against Putting Things Right, and the progress to strengthen incident reporting arrangements.

The Board scrutinised the response to complaints, acknowledged the historic challenges of screening programme related incidents and looked for continuing action to resolve these. QS reaffirmed recent actions to close the incidents, highlighting considerable improvement in recent weeks. The Board explored



the possibility of a dashboard to indicate increases in reported incidents in a timely manner.

**Action: RB-W**

The Board **considered** the report and took **assurance** from the organisation's performance at the end of October 2019.

JL joined the meeting

**PHW90/2019 Board Assurance Framework**

The Board **received** the Board Assurance Framework ([ref 8.1.281119](#))

In respect of the risks reported, the Board noted:

- the recent appointment of the Assistant Director of Integrated Governance.
- the number of overdue actions on the plan, querying whether the delays affected the residual risk. JL commented on improvement plans to mitigate the risk.
- the addition of Quality and Impact Indicators and the application of Health and Care Standards as risk 2.4. The Board delayed approval of the requested revised due date to enable QS, KE, RB.W and TC to meet to discuss this in further detail.

**Action: RB-W**

- the high risk ratings assigned to risk 3, questioning whether the completed actions had impacted on the risk rating. QS commented that the risk rating reflected the risk to the organisation (for reconsideration at the Transformation Board meeting in January 2020). JL referenced on the considerable amount of work to reduce the likelihood of the risk occurring, whilst recognising that the impact of the risk would always remain high.
- the proposed revision to risk 5, following receipt of additional funding. The Board agreed to consider the 'Building a Healthier Wales' agenda at the next Board meeting.

**Action: JA/TC**

The Board **resolved** to approve the revised due dates reported, with the exception of risk 2.4.

**PHW91/2019 Corporate Risk Register**

The Board **received** the Corporate Risk Register ([ref 8.2.281119](#)).

The Board considered the reported risks, noting the addition of a Welsh Language Standard risk.

The Board reviewed the three overdue actions and agreed to consider the Diabetic Eye Screening Wales programme risks as part of the Quality, Safety and Improvement Committee report under the Committee Chairs' composite



report.

The Board received **assurance** around the appropriate management of the corporate risks of the organisation.

*JL left the meeting*

**PHW92/2019 Welsh Language Standards**

The Board **received** the Welsh Language Standards report (ref [8.3.281119](#))

The Board supported the focus on embedding the Welsh language; this included setting up a Welsh Language Group, with cross directorate representation, improved resources within the People and Organisational Development team, a Welsh Language Hub and Welsh Language Week celebrations. PB reported improved compliance rates around the standards and advised that the People and Organisational Development Committee would consider a detailed paper at its next meeting.

The Board: discussed the challenge to three further standards (17, 106a and 107a) scheduled for imposition on the 30 November 2019; suggested amendments to job adverts to include principles and ambitions around use of the Welsh Language, explored the use of in-house vs external translation services, and possible future developments around language and culture.

The Board resolved to:

- **approve** the recommended challenges
- **consider** a strategic options paper on translation services and
- during 2020, **consider** further developments around language and culture

**Action: PB / MB**

**PHW93/2019 Revised Standing Orders, Annual Review of Committee Terms of Reference & Scheme of Delegation**

The Board **received** the Revised Standing Orders ([ref 8.4.281119i](#))

The Board resolved to **approve** the proposed amendments to the Standing Orders and Reservations and Delegations of Powers, including the two proposed deviations from the model document around Non-Executive Director terminology and paper publication dates.

The Board **received** the Annual Review of Committee Terms of Reference ([ref.8.4.2.281119](#))

The Board resolved to **approve** the proposed amendments to the Standard Terms of Reference and Operating Arrangements for the following Committees: Audit and Corporate Governance; People and Organisational Development; Remuneration and Terms of Service; Quality, Safety and

Improvement and the new terms of reference for the Technology and Innovation Advisory Forum.

The Board noted that the People and Organisational Development Committee had approved the Local Partnership Forum Advisory Forum terms of reference, under its delegated authority from the Board.

The Board noted the update and approval of the Knowledge, Research and Information Committee terms of reference in September 2019.

The Board **received** the Scheme of Delegation report ([ref 8.4.3.281119](#)).

In considering the overall principles and direction of delegation outlined in the paper, the Board questioned the delegation of oversight of risk. The Board had ultimate responsibility, the Audit and Corporate Governance Committee had oversight on behalf of the Board, and other Board Committees undertook 'deep dives' into identified areas of risk. The Board agreed that a schematic 'infographic' would be helpful in setting out respective roles and responsibilities

**Action: HB**

The Board resolved to **adopt** a revised retention, escalation and de-escalation framework.

The Board deliberated on the delegation of decisions relating to workforce remuneration, noting the issue of compliance with the standing financial instructions. The Board Secretary agreed to give the matter further consideration.

**Action: HB**

### **PHW94/2019 Composite Committee Chair's report**

The Board **received** the composite report from the Committee Chairs' ([ref 7.4.1.260919](#)).

#### **Quality, Safety and Improvement Committee**

KE introduced the report from the meeting on 12 November 2019, commenting particularly on the Health Protection deep dive.

The Board agreed to consider the Health Protection deep dive presentation outside the meeting.

**Action: KE / Secretariat**

The Board also reflected on the wide range of Health Protection responsibilities and noted the Committee's plan to undertake deep dives into other areas. KE summarised the departmental internal audit of lessons learnt and the work underway to improve the management of lessons learnt process.

The Board discussed the backlog of Diabetic Eye Screening Wales incidents highlighted during the Committee meeting. The Board noted the Committee's intention to review the management of the incidents, and Executive Team

<p>recommendations on workforce recruitment at the next meeting. <b>Action: KE/ RB-W</b></p> <p><b>Audit and Corporate Governance Committee</b> DE presented the report from the Committee meeting on 25 September 2019, having provided a verbal update at the previous Board meeting. DE confirmed that final internal audit reports had provided a basis for confidence in the work carried out across its directorates. The Committee had also scrutinised organisational risk, savings and policies.</p> <p><b>People and Organisational Development Committee</b> JR presented the report from the meeting on 02 October 2019, commenting on the People Strategy and Workforce plans, and the proposals to address specialist appointments. The Committee would consider the People Strategy, a wider paper on recruitment and an update on Welsh Language Standards at its next meeting on 27 February 2020.</p> <p><b>Knowledge, Research and Information Committee</b> ShP presented the report from the meeting on 09 October 2019, highlighting the deep dive into Public Health Wales’ engagement with universities. The Board noted the Committee’s intention to consider the Knowledge Mobilisation Strategy at its next meeting on 06 February 2020.</p> <p>The Board resolved to <b>note</b> the report from Committee Chairs, and the actions identified.</p>
<p><b>PHW95/2019 Date of next meeting</b></p> <p>23 January 2020 at 09.00 to be held at Public Health Wales, 2 Capital Quarter, Tyndall Street, Cardiff. CF10 4BZ.</p> <p>JW closed the meeting in public session, explaining the reasons behind any subsequent meeting in private session.</p> <p style="text-align: center;"><i>The Public Session closed at 13:15</i></p>
<p><b>The Board met in Private Session to consider business of a confidential nature, publicity of which would be prejudicial to the public interest in accordance with Section 1(2) Public Bodies (Admission to Meetings) Act 1960.</b></p>



**GIG**  
CYMRU  
**NHS**  
WALES

Iechyd Cyhoeddus  
Cymru  
Public Health  
Wales

**Cofnodion heb eu cadarnhau o Gyfarfod y Bwrdd  
a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2019,  
Ystafell 3.7, 2 Capital Quarter, Stryd Tyndall, Caerdydd CF10 4BQ**

<b>Yn bresennol:</b>		
Jan Williams	(JW)	Cadeirydd
Tracey Cooper	(TC)	Prif Weithredwr
Jyoti Atri	(JA)	Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd a Llesiant Dros Dro
Kate Eden	(KE)	Cyfarwyddwr Anweithredol, Dirprwy Gadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella
Dyfed Edwards	(DE)	Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol
Huw George	(HG)	Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Chyllid
Stephen Palmer	(StP)	Cyfarwyddwr Anweithredol
Shantini Paranjothy	(ShP)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Prifysgol) a Chadeirydd y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd
Judi Rhys	(JR)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Trydydd Sector) a Chadeirydd y Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl
Dr Quentin Sandifer	(QS)	Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus/Cyfarwyddwr Meddygol
Alison Ward	(AW)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Awdurdod Lleol)
<b>Hefyd yn Bresennol:</b>		
Mark Bellis	(MB)	Cyfarwyddwr Polisi, Ymchwil a Datblygiad Rhyngwladol (drwy gyfleuster fideo gynadledda)
Julie Bishop (ar gyfer eitem 88/2019)	(JB)	Cyfarwyddwr Diogelu Iechyd ac Ymgynghorydd Iechyd Cyhoeddus
<b>Dyddiad:</b> 28 Tachwedd 2019	<b>Fersiwn:</b> 1	<b>Tudalen:</b> 1 o 12

Sian Bolton	(SB)	Cyfarwyddwr Pontio Dros Dro, y Gyfarwyddiaeth Wybodaeth
John Boulton	(JB)	Cyfarwyddwr Gwella Ansawdd y GIG a Diogelwch Cleifion/1000 o Fywydau
Phil Bushby	(PB)	Cyfarwyddwr Datblygu Sefydliadol a Phobl
Helen Bushell	(HB)	Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd
Helena Herklotts (ar gyfer eitem 83/2019)	(HH)	Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
John Lawson (ar gyfer eitem 91/2019)	(JL)	Prif Swyddog Risgiau
Lucy O'Loughlin (ar gyfer eitem 88/2019)	(LO)	Ymgynghorydd Arweiniol ar gyfer y Rhaglen Gordewdra a Maeth
Reanne Reffell	(RR)	Swyddog Llywodraethu Corfforaethol (Ysgrifenyddiaeth)
<b>Cymorth Cyfathrebu</b>		
Rhian Huws		Cwmni Canna Cyfyngedig (cyfieithu ar y pryd)
Jamie Topp		Cynorthwydd Digidol
<b>Ymddiheuriadau:</b>		
Rhiannon Beaumont-Wood	(RB-W)	Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd
Stephanie Wilkins	(SW)	Cynrychiolydd y Fforwm Partneriaeth Staff

*Dechreuodd y cyfarfod am 09:00*

<b>PHW80 / 2019 Croeso</b>
<i>Ymunodd HH â'r cyfarfod</i>
Agorodd JW y cyfarfod a chroesawu pawb a oedd yn bresennol, gan nodi'r defnydd o God Moesau'r Bwrdd.
Croesawodd JW bawb a oedd yn ymuno â'r cyfarfod drwy ffrydio byw, gan gadarnhau bod y papurau ar gael ar <a href="https://phw.nhs.wales/about-us/board-and-executive-team/board-papers/board-meetings/2019-2020/28-november-2019/board-28-nov-papers/">wefan &lt;https://phw.nhs.wales/about-us/board-and-executive-team/board-papers/board-meetings/2019-2020/28-november-2019/board-28-nov-papers/&gt;</a> Iechyd Cyhoeddus Cymru. Croesawodd y Bwrdd gyfraniadau yn Gymraeg a thynnodd JW sylw at y ffaith bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael.
<b>PHW81 / 2019 Ymddiheuriadau</b>
<b>Nododd</b> y Bwrdd yr ymddiheuriadau am absenoldeb.

**PHW82 / 2019 Datgan Buddiannau**

Ni wnaed ddatganwyd unrhyw fuddiannau yn ychwanegol at y rhai ar y gofrestr datgan buddiannau.

**PHW83 / 2019 Partneriaeth Strategol**

Estynnodd JW groeso cynnes i Helena Herklotts, a oedd yn mynychu'r Bwrdd i gyflwyno'i gwaith fel Comisiynydd Pobl Hŷn a thrafod meysydd o ddiddordeb cyffredin ag Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Dechreuodd HH drwy amlinellu ei rôl fel Comisiynydd Pobl Hŷn, a phwerau cyfreithiol y Swyddfa, i ddwyn cyrff cyhoeddus i gyfrif am eu hymgysylltiad â phobl hŷn. Crynhodd dair prif flaenoriaeth y Swyddfa: mynd i'r afael â chamdrin (corfforol, ariannol neu emosiynol); herio rhagfarn a gwahaniaethu ar sail oedran; a heneiddio'n dda, gan sicrhau bod pob oedolyn yn cael cyfle i heneiddio'n dda fel aelod gwerthfawr o'i gymuned. Ymhelaethodd HH ar y blaenoriaethau hyn drwy gydol ei chyflwyniad.

Nododd HH ei huchelgais i wneud Cymru yn lle gwych i bobl hŷn, gan fynd i'r afael â'r rhwystrau allweddol sy'n wynebu pobl hŷn, gan gynnwys ym maes trafndiaeth, budd-daliadau, iechyd meddwl a thlodi. Roedd HH yn bwriadu brwydro yn erbyn rhagfarn gyffredin ar sail oedran ac arwain ar dull cenedlaethol o werthfawrogi'r cyfraniad y gallai pobl hŷn ei wneud i gymdeithas yng Nghymru. Nododd fod yr agenda heneiddio'n dda yn cyd-fynd â blaenoriaeth strategol 1 Iechyd Cyhoeddus Cymru, sef dylanwadu ar benderfynyddion ehangach iechyd.

Yna cafwyd cyflwyniad â JB ar ehangder gwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru i gefnogi'r boblogaeth hŷn, gan gynnwys: [Adroddiad Gwella Iechyd a Llesiant dros y Gaeaf yng Nghymru <https://icc.gig.cymru/newyddion/newyddion/iechyd-dros-y-gaeaf-sut-y-gallwn-ni-i-gyd-wneud-gwahaniaeth/report-cym/>](https://icc.gig.cymru/newyddion/newyddion/iechyd-dros-y-gaeaf-sut-y-gallwn-ni-i-gyd-wneud-gwahaniaeth/report-cym/); ffocws Gwelliant Cymru ar gefnogi cartrefi gofal i leihau derbyniadau i'r ysbyty y gellir eu hosgoi; atal cwmpadau, diogelwch meddyginiaethau a gofal heb ei drefnu.

Gwnaeth MB sylwadau ar y gwaith a wnaed drwy gydol y flwyddyn i gynyddu gwytnwch pobl hŷn yn ystod misoedd y gaeaf, a sefydlu Uned Atal Trais yng Nghymru, a oedd yn canolbwyntio ar bob math o drais; cynigiodd y dylid ymgysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd ar atal trais yn erbyn pobl hŷn.

**Camau gweithredu: MB**

Croesawodd aelodau'r bwrdd y cyflwyniad a'r pwyslais ar ddathlu cyfraniad pobl hŷn at gymdeithas; yna cafwyd trafodaeth eang, gan gynnwys: yr angen am waith cynllunio hirdymor mewn perthynas â seilwaith, mewn lleoliadau trefol a gwledig; y cydbwysedd sydd ei angen i reoli asesiadau risg gweithwyr proffesiynol ac unigolion; anghydraddoldebau rhwng y rhywiau ymysg pobl hŷn; mesuriadau o hapusrwydd a boddhad ymysg pobl hŷn.

Arweiniodd hynny at drafodaeth ar ddatblygu dangosyddion perfformiad allweddol a defnyddio data StatsCymru. Cynigiodd SB gymorth Arsyllfa'r Gyfarwyddiaeth Wybodaeth i gefnogi HH yn y datblygiadau parhaus o fesurau ansawdd.

**CAMAU GWEITHREDU: SB**

Nododd aelodau'r bwrdd y dull pontio'r cenedlaethau sy'n cael ei ddefnyddio, gyda chefnogaeth Prifysgol Bangor, i hwyluso sesiynau rhwng cartrefi gofal ac ysgolion. Cytunodd yr aelodau i ddwyn hyn i sylw'r Llysgenhadon Ifanc.

**CAMAU GWEITHREDU: RB-W**

Daeth TC â'r drafodaeth i ben drwy dynnu sylw at flaenoriaethau cyffredin, gan gynnwys: atal trais, adeiladu gwytnwch ar gyfer y gaeaf a nodi sut beth yw 'da' mewn poblogaeth sy'n heneiddio. Cytunodd i gwrdd â HH i ddatblygu'r agenda hon ymhellach.

**Camau gweithredu: TC / JA**

Ar ran y Bwrdd, diolchodd JW i HH am ei chyflwyniad ysbrydoledig ac edrychodd ymlaen at gael diweddariad yn 2020 ar y gwaith ar y cyd y cytunwyd arno.

*Gadawodd HH y cyfarfod  
Ymunodd JB ac LO â'r cyfarfod*

**PHW84 / 2019 Cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 26 Medi 2019**

**Cymeradwyodd** y Bwrdd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod ar 26 Medi 2019 (cyf [4.1.281119](#)).

**PHW85 / 2019 Cofnod o Gamau Gweithredu'r Bwrdd**

**Nododd** y Bwrdd y Cofnod o'r Camau Gweithredu (cyf [4.1.2.281119](#)) a'r cynnydd ar y tri cham a oedd heb eu cwblhau. **Cymeradwyodd** y Bwrdd i gau'r camau gweithredu a farciwyd fel rhai a gwblhawyd.

**PHW86 / 2019 Materion yn Codi**

O ystyried natur gyfrinachol y pwnc, byddai'r bwrdd yn ystyried diweddariad ar barodrwydd ymadael o'r UE yn y sesiwn gaeedig.

**PHW87 / 2019 Adroddiad y Prif Weithredwr**

**Derbyniodd** y Bwrdd Adroddiad y Prif Weithredwr (cyf [5.281119](#)).

Tynnodd TC sylw at Gynhadledd ddiweddar Iechyd Cyhoeddus Cymru, gyda'i ffocws ar waith atal cenedlaethol a rhyngwladol, ac a oedd yn cynnwys lansio strategaeth Llywodraeth Cymru Pwysau Iach: Cymru Iach. Roedd y



Gynhadledd wedi rhoi cyfle sylweddol i hyrwyddo 'Creu Cymru Iachach' a chanmolodd TC bawb sy'n ymwneud â'i ddylunio, ei gynllunio a'i gyflawni.

Aeth TC ymlaen i grynhoi'r cyfarfod atebolrwydd canol blwyddyn gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a chytunodd i roi copi o sleidiau'r cyflwyniad a ddefnyddiwyd yn y cyfarfod i'r Bwrdd.

**CAMAU GWEITHREDU: BI:**

Nododd y Bwrdd y cais diweddar i bob corff iechyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gwblhau ymarfer hunanasesu yn erbyn y pedwar ar ddeg o argymhellion a nodwyd mewn adolygiad a gynhaliwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru/Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru o drefniadau llywodraethu ansawdd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf.

Byddai aelodau'r bwrdd i gyd yn cael cyfle i wneud sylwadau ar y papur arfaethedig.

**CAMAU GWEITHREDU: HB/RB-W**

Cadarnhaodd JB fod Gwelliant Cymru ac Academi Gwelliant Cymru wedi cael eu lansio. Diolchodd JB i'r Bwrdd, a'r tîm cyfathrebu am eu cefnogaeth yn ystod y gynhadledd 'lansio' hynod lwyddiannus, cytunodd i ddarparu diweddariad pellach y tu allan i'r cyfarfod.

**Camau gweithredu: JB**

Rhoddodd QS y wybodaeth ddiweddaraf am yr achosion o TB yn Llwynhendy, a'r ymgysylltiad â Public Health England ar y cam nesaf o reoli achosion. Fe wnaeth QS hefyd grynhoi'r gwaith parhaus gyda Llywodraeth Cymru ac Adnoddau Cenedlaethol Cymru ar flaenoriaeth strategol 5, a'r ymrwymiad i ymateb i effaith newid yn yr hinsawdd, a pharatoi ar gyfer hynny.

Gwnaeth JW a KE sylwadau ar lwyddiant cynadleddau cenedlaethol diweddar, gan ganmol pawb a gymerodd ran a nodi'r arbenigedd corfforaethol sylweddol o ran rheoli cynadleddau mawr.

## **PHW88 / 2019 Craffu Manwl ar Flaenoriaeth Strategol (SP3)**

**Derbyniodd** y Bwrdd gyflwyniad yn craffu'n fanwl ar Flaenoriaeth Strategol 3, sef hyrwyddo Ymddygiad Iach ([cyf 6.281119](#)). Nododd JW mai hwn oedd y cyntaf o gyfres o adroddiadau craffu manwl ar draws yr holl flaenoriaethau strategol a diolchodd i JA, JB a LO'L am gymryd rhan ynddo.

Fel rhagarweiniad i'r cyflwyniad, gwnaeth JA sylwadau ar y mathau o ymddygiad a amlygir o fewn blaenoriaeth strategol 3 (ysmygu, maeth, camddefnyddio alcohol a chyffuriau a gweithgaredd corfforol) a chynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu blynyddol. Soniodd JB am yr ymgysylltiad â Llywodraeth Cymru ar y strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach, amlinellodd

nifer o gyflawniadau mewn perthynas â'r dull Creu Cymru Iachach, a'r effaith gadarnhaol ar roi'r gorau i ysmegu.

Mewn trafodaeth eang, nododd Aelodau'r Bwrdd: gymhlethdod yr agenda; bod y gwaith cyflawni yn dibynnu i raddau helaeth ar weithio mewn partneriaeth ag eraill, gan gynnwys Chwaraeon Cymru, a bod rôl Iechyd Cyhoeddus Cymru o ran arwain y system yn cynnwys eiriolaeth, dylanwadu a darparu tystiolaeth. Gwnaeth yr aelodau sylwadau ar ddiffyg dulliau mesurau canlyniadau mewn nifer o feysydd, gan nodi nad oedd Llywodraeth Cymru wedi gosod targedau yn absenoldeb tystiolaeth. Roedd yr aelodau yn gwbl grediniol y dylai'r Gyfarwyddiaeth Wybodaeth ganolbwyntio ar adolygiadau tystiolaeth ac ar gefnogi ymchwil berthnasol o dan bob un o'r blaenoriaethau strategol.

#### **CAMAU GWEITHREDU: SB**

Aeth yr aelodau ymlaen i drafod yr heriau recriwtio a gafwyd yn ystod y flwyddyn; amlinellodd PB y camau sydd ar waith i gefnogi recriwtio, gan gynnwys argaeledd cyllid ar gyfer y Cymhwyster Meistr mewn Iechyd Cyhoeddus. Crynhodd waith y Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl ynghylch adolygu swyddi gwag / tagfeydd yn y broses recriwtio ac adolygiad sefydliadol cyfan arfaethedig o recriwtio staff arbenigol.

Cadarnhaodd TC y byddai'r Bwrdd llawn, yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2020, yn cynnal sesiwn graffu fanwl ar y broses recriwtio, lle y byddai'r aelodau yn gallu trafod recriwtio staff arbenigol yn fwy manwl. Gan fod y Strategaeth Pobl ar yr un agenda, byddai'r Bwrdd yn cael cyfle i ystyried y materion recriwtio yn y cyd-destun ehangach hwnnw.

#### **CAMAU GWEITHREDU: PB**

Yng ngoleuni'r materion sy'n ymwneud âg argaeledd tystiolaeth recriwtio a mesur canlyniadau, ynghyd â natur y rôl arwain system, myfyriodd y Bwrdd ar y bwriad sy'n sail i Flaenoriaeth Strategol 3 a'r posibilrwydd o'i mireinio. Cadarnhaodd TC y byddai hyn yn digwydd fel rhan o broses Cynllun Tymor Canolig Integredig 2020/23, ac y byddai'r Cynllun arfaethedig yn cael ei gyflwyno ym mis Ionawr.

#### **CAMAU GWEITHREDU: HG**

Yna cafodd y Bwrdd gyflwyniad ar Pwysau Iach, Cymru Iach a chyfraniad y gyfarwyddiaeth tuag at y strategaeth hon. Diolchodd yr aelodau i JB a LO`L am eu cyflwyniad addysgiadol, gan resynu bod cyfyngiadau amser wedi golygu nad oedd modd cael trafodaeth yn y cyfarfod.

Daeth TC â'r sesiwn graffu fanwl i ben drwy fyfyrion ar sut beth oedd llwyddiant i Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan gyfeirio at y potensial ar gyfer system well o fesur ar gyfer blaenoriaethau strategol. Gwnaeth sylwadau ar yr angen am ddull creadigol o recriwtio, gweithio mor eang â phosibl â'r byd academiaidd ac agwedd ragweithiol tuag at wyddoniaeth data ac ymchwil. Cyfeiriodd TC at yr

angen i adeiladu momentwm o amgylch newid ymddygiad gan sicrhau buddsoddiad ar yr un pryd, a rhoi rhaglenni ar waith. Byddai'r ystwythder hwn yn hanfodol i gyflawni Creu Cymru Iachach.

Derbyniodd y Bwrdd **sicrwydd** ynghylch y cyflawniadau yn ystod y flwyddyn, gan nodi cydnabyddiaeth o'r heriau, y cynlluniau sydd ar waith i liniaru yn erbyn y rhain a'r gwaith a fyddai'n rhan o broses o lunio Cynllun Tymor Canolig Integredig 2020/23.

*Gadawodd JB a LO y cyfarfod*

## **PHW89 / 2019 Adroddiad Integredig ar Berfformiad**

**Derbyniodd** y Bwrdd yr adroddiad ar berfformiad ([cyf 7.1.281119](#)).

### **Blaenoriaethau strategol**

Roedd y Bwrdd yn cofio'r bwriad i gytuno ar ganlyniadau hirdymor a mesurau carreg filltir priodol ym mhedwerydd chwarter 2019/20, i'w gweithredu o 2020/21. Byddai sesiwn ddatblygu'r Bwrdd ar 12 Rhagfyr 2019 yn mynd i'r afael â'r rhain.

Nododd y Bwrdd y cynnydd sy'n cael ei wneud ar draws yr holl flaenoriaethau strategol a amlinellwyd yn yr adroddiad.

Wrth ystyried blaenoriaeth strategol 5, gofynnodd y Bwrdd am esboniad o'r cynnydd mewn cyfraddau *C.difficile*. Gwnaeth QS sylwadau ar y ffactorau sydd wedi cyfrannu at hyn a chytunodd i ddarparu dadansoddiad manwl i aelodau'r Bwrdd y tu allan i'r cyfarfod.

### **Camau gweithredu: QS**

Gwnaeth aelodau'r bwrdd sylwadau ar faterion yn ymwneud â'r gweithlu fel ffactor sy'n effeithio ar berfformiad ar draws nifer o feysydd, gan nodi'r 'sesiwn graffu fanwl' arfaethedig ar recriwtio yn y cyfarfod ym mis Ionawr 2020. O ystyried prinder parhaus yng ngweithlu Bron Brawf Cymru ar draws GIG Cymru, cytunodd yr aelodau i ofyn i Addysg a Gwella Iechyd Cymru gwrdd â'r Bwrdd/Pwyllgor i ymchwilio i sut y byddai ei gylch gwaith yn mynd i'r afael â'r prinder hwn.

### **CAMAU GWEITHREDU: HB/PB**

Gwnaeth Aelodau'r Bwrdd sylwadau ar y materion sy'n effeithio ar Bron Brawf Cymru mewn perthynas â llety a chael cerbydau newydd, a nodwyd y camau sydd ar y gweill i liniaru'r materion.

### **Perfformiad Ariannol**

Derbyniodd yr aelodau berfformiad ariannol mis 07, gan nodi'r cyfalaf ychwanegol a dderbyniwyd a'r rhagolwg o ran adennill costau. Diolchodd y Bwrdd i'r tîm cyllid am ei reolaeth ariannol drylwyr barhaus.

**Perfformiad y Gweithlu / Datblygu Sefydliadol a Phobl**

Nododd y Bwrdd fod cyfraddau trosiant ac absenoldeb salwch bron â chyrraedd y targed, a chroesawodd y ffocws ar hyfforddiant ac arfarniadau. Croesawodd y Bwrdd fwriad y tîm gweithredol ac arweinwyr busnes i ystyried dulliau recriwtio pellach ar gyfer rolau arbenigol / anodd eu llenwi.

**Ansawdd**

Nododd y Bwrdd y perfformiad yn erbyn Gweithio i Wella, a'r cynnydd o ran cryfhau trefniadau adrodd ar ddiwyddiadau.

Craffodd y Bwrdd ar yr ymateb i gwynion, gan gydnabod heriau hanesyddol digwyddiadau sy'n gysylltiedig â rhaglenni sgrinio gan edrych ar gamau parhaus i ddatrys y rhain. Cadarnhaodd QS y camau diweddar i ddod â'r materion hyn i ben, gan dynnu sylw at welliant sylweddol yn ystod yr wythnosau diwethaf. Trafododd y Bwrdd y posibilrwydd o ddangosfwrdd i nodi cynnydd mewn digwyddiadau yr adroddwyd amdanynt mewn ffordd amserol.

**Camau gweithredu: RB-W**

**Ystyriodd** y Bwrdd yr adroddiad a chafodd **sicrwydd** o berfformiad y sefydliad ar ddiwedd mis Hydref 2019.

Ymunodd JL â'r cyfarfod

**PHW90 / 2019 Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd**

**Derbyniodd** y Bwrdd Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ([cyf 8.1.281119](#))

Mewn perthynas â'r risgiau yr adroddwyd arnynt, nododd y Bwrdd:

- benodiad diweddar Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Integredig.
- nifer y camau sydd heb eu cwblhau ar y cynllun, gan holi a oedd yr oedi yn effeithio ar y risg weddilliol. Gwnaeth JL sylwadau ar gynlluniau gwella i liniaru'r risg.
- ychwanegu Dangosyddion Ansawdd ac Effaith a chymhwyso Safonau Iechyd a Gofal fel risg 2.4. Gohiriodd y Bwrdd y cam o gymeradwyo'r dyddiad diwygiedig er mwyn galluogi QS, KE, RB.W a TC i gwrdd er mwyn trafod hyn yn fanylach.

**Camau gweithredu: RB-W**

- y sgoriau risg uchel a roddwyd i risg 3, gan gwestiynu a oedd y camau a gwblhawyd wedi effeithio ar y sgôr. Dywedodd QS fod y sgôr risg yn adlewyrchu'r risg i'r sefydliad (i'w ailystyried yng nghyfarfod y Bwrdd Trawsnewid ym mis Ionawr 2020). Cyfeiriodd JL at y gwaith sylweddol i leihau'r tebygolrwydd y byddai'r risg yn digwydd, gan gydnabod y byddai effaith y risg bob amser yn parhau i fod yn uchel.
- y diwygiad arfaethedig i risg 5, ar ôl derbyn cyllid ychwanegol. Cytunodd y Bwrdd i ystyried yr agenda 'Creu Cymru Iachach' yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.

**Camau gweithredu: JA / TC**

**Penderfynodd** y Bwrdd gymeradwyo'r dyddiadau diwygiedig yr adroddwyd arnynt, ac eithrio'r un ar gyfer risg 2.4.

**91/2019 Y Gofrestr Risgiau Corfforaethol**

**Derbyniodd** y Bwrdd y Gofrestr Risgiau Corfforaethol ([cyf 8.2.281119](#)).

Ystyriodd y Bwrdd y risgiau yr adroddwyd arnynt, gan nodi bod risg yn ymwneud â Safonau'r Gymraeg wedi'i hychwanegu.

Adolygodd y Bwrdd y tri cham gweithredu a oedd eto i'w cwblhau a chytunwyd i ystyried risgiau rhaglen Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru fel rhan o adroddiad y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella o dan adroddiad cyfansawdd Cadeiryddion y Pwyllgor.

Derbyniodd y Bwrdd **sicrwydd** ynghylch rheolaeth briodol ar risgiau corfforaethol y sefydliad.

*Gadawodd JL y cyfarfod*

**PHW92/2019 Safonau'r Gymraeg**

**Derbyniodd** y Bwrdd adroddiad ar Safonau'r Gymraeg (cyf [8.3.281119](#))

Cefnogodd y Bwrdd y ffocws ar ymgorffori'r Gymraeg; roedd hyn yn cynnwys sefydlu Grŵp Iaith Cymraeg, gyda chynrychiolaeth o bob cyfarwyddiaeth, gwell adnoddau o fewn y tîm Datblygu Sefydliadol a Phobl, Hyb Iaith Gymraeg a dathliadau Wythnos y Gymraeg. Dywedodd PB, er bod cyfraddau cydymffurfio cryf yn y rhan fwyaf o feysydd, roedd heriau o ran ateb ffonau, cofnodi cydymffurfiaeth a recriwtio i rai swyddi. Byddai'r Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl yn ystyried papur manwl yn ei gyfarfod nesaf.

Trafododd y Bwrdd y ffaith bod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn herio tair safon arall (17, 106a a 107a) a fydd yn cael eu gorfodi ar 30 Tachwedd 2019; awgrymwyd diwygiadau i hysbysebion swyddi i gynnwys egwyddorion ac uchelgeisiau ynghylch defnyddio'r Gymraeg, trafodwyd y defnydd o wasanaethau cyfieithu mewnol o gymharu â gwasanaethau allanol, a datblygiadau posibl yn y dyfodol mewn perthynas ag iaith a diwylliant.

Penderfynodd y Bwrdd:

- **gymeradwyo** yr heriau a argymhellir
- **ystyried** papur opsiynau strategol ar wasanaethau cyfieithu ac
- yn ystod 2020, **ystyried** datblygiadau pellach yn ymwneud ag iaith a diwylliant

**Camau gweithredu: PB / MB**

**PHW93 / 2019 Rheolau Sefydlog Diwygiedig, Adolygiad Blynyddol o Gylch Gorchwyl a Chynllun Dirprwyo'r Pwyllgor**

**Derbyniodd** y Bwrdd y Rheolau Sefydlog Diwygiedig ([cyf 8.4.281119i](#))

Penderfynodd y Bwrdd **gymeradwyo** y diwygiadau arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog a Chadw a Dirprwyo Pwerau, gan gynnwys y ddau wyriad arfaethedig o'r ddogfen enghreifftiol ynghylch y derminoleg Cyfarwyddwr Anweithredol a dyddiadau cyhoeddi papurau.

**Derbyniodd** y Bwrdd yr Adolygiad Blynyddol o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor ([cyf.8.4.2.281119](#))

Penderfynodd y Bwrdd **gymeradwyo** y diwygiadau arfaethedig i'r Cylch Gorchwyl Safonol a Threfniadau Gweithredu ar gyfer y Pwyllgorau a ganlyn: Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol; Datblygu Sefydliadol a Phobl; Tâl a Thelerau Gwasanaeth; Ansawdd, Diogelwch a Gwelliant a'r cylch gorchwyl newydd ar gyfer y Fforwm Cynghori Technoleg ac Arloesi.

Nododd y Bwrdd fod y Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl wedi cymeradwyo cylch gorchwyl Fforwm Cynghori'r Fforwm Partneriaeth Leol, o dan ei awdurdod dirprwyedig gan y Bwrdd.

Nododd y Bwrdd fod cylch gorchwyl y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd wedi'i ddiweddarau a'i gymeradwy ym mis Medi 2019.

**Derbyniodd** y Bwrdd adroddiad y Cynllun Dirprwyo ([cyf 8.4.3.281119](#)).

Wrth ystyried yr egwyddorion cyffredinol a'r cyfeiriad dirprwyo a amlinellir yn y papur, cwestiynodd y Bwrdd pam y dirprwywyd goruchwyllo risg. Y Bwrdd oedd â'r cyfrifoldeb yn y pen draw, roedd gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol oruchwyliaeth ar ran y Bwrdd, ac roedd Pwyllgorau eraill y Bwrdd yn cynnal 'sesiynau craffu manwl' ar feysydd risg a nodwyd. Cytunodd y Bwrdd y byddai 'ffeithlun' sgematig yn ddefnyddiol o ran nodi rolau a chyfrifoldebau priodol

**Camau gweithredu: HB**

Penderfynodd y Bwrdd **fabwysiadu** fframwaith cadw, dwysáu a dad-ddwysáu diwygiedig.

Bu'r Bwrdd yn trafod dirprwyo penderfyniadau yn ymwneud â chydabyddiaeth ariannol y gweithlu, gan nodi bod yn rhaid cydymffurfio â'r cyfarwyddiadau ariannol sefydlog. Cytunodd Ysgrifennydd y Bwrdd i ystyried y mater ymhellach.

**Camau gweithredu: HB****PHW94 / 2019 Adroddiad Cyfansawdd Cadeiryddion y Pwyllgorau**

**Derbyniodd** y Bwrdd yr adroddiad cyfansawdd gan Gadeiryddion y Pwyllgorau '([cyf 7.4.1.260919](#))'.

**Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella**

Cyflwynodd KE yr adroddiad o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd 2019, gan wneud sylwadau arbennig ar y sesiwn graffu fanwl ar Ddiogelu Iechyd. Cytunodd y Bwrdd i ystyried cyflwyniad y sesiwn graffu fanwl ar Ddiogelu Iechyd y tu allan i'r cyfarfod.

### **Camau gweithredu: KE / Ysgrifenyddiaeth**

Myfyriodd y Bwrdd hefyd ar yr ystod eang o gyfrifoldebau Diogelu Iechyd a nododd gynllun y Pwyllgor i gynnal sesiwn graffu fanwl ar feysydd eraill. Crynhodd KE archwiliad mewnol yr adran o'r gwersi a ddysgwyd a'r gwaith sydd ar y gweill i wella'r ffordd y rheolir y broses gwersi a ddysgwyd.

Trafododd y Bwrdd yr ôl-groniad o ddigwyddiadau Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru a amlygwyd yn ystod cyfarfod y Pwyllgor. Nododd y Bwrdd fwriad y Pwyllgor i adolygu'r ffordd y rheolwyd y digwyddiadau, ac argymhellion y Tîm Gweithredol ar recriwtio'r gweithlu yn y cyfarfod nesaf.

### **Camau gweithredu: KE / RB-W**

#### **Y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol**

Cyflwynodd DE yr adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 25 Medi 2019, ar ôl darparu diweddariad llafar yng nghyfarfod blaenorol y Bwrdd. Cadarnhaodd DE fod adroddiadau archwilio mewnol terfynol wedi darparu sylfaen ar gyfer hyder yn y gwaith a wnaed ar draws ei gyfarwyddiaethau. Roedd y Pwyllgor hefyd wedi craffu ar risg, arbedion a pholisïau sefydliadol.

#### **Y Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl**

Cyflwynodd JR yr adroddiad o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 02 Hydref 2019, gan roi sylwadau ar y Strategaeth Pobl a chynlluniau'r Gweithlu, a'r cynigion i fynd i'r afael â phenodi arbenigwyr. Byddai'r Pwyllgor yn ystyried y Strategaeth Pobl, papur ehangach ar recriwtio a diweddariad ar Safonau'r Gymraeg yn ei gyfarfod nesaf ar 27 Chwefror 2020.

#### **Y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd**

Cyflwynodd ShP yr adroddiad o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 09 Hydref 2019, gan dynnu sylw at y sesiwn graffu fanwl ar ymgysylltiad Iechyd Cyhoeddus Cymru â phrifysgolion. Nododd y Bwrdd fwriad y Pwyllgor i ystyried y Strategaeth Defnyddio Gwybodaeth yn ei gyfarfod nesaf ar 06 Chwefror 2020.

Penderfynodd y Bwrdd **nodï'r** adroddiad gan Gadeiryddion y Pwyllgorau, a'r camau a nodwyd.

### **PHW95 / 2019 Dyddiad y cyfarfod nesaf**

23 Ionawr 2020 am 09.00 i'w gynnal yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2 Capital Quarter, Stryd Tyndall, Caerdydd. CF10 4BZ.

Caeodd JW y cyfarfod cyhoeddus, gan esbonio'r rhesymau dros unrhyw gyfarfod dilynol a gynhelir mewn sesiwn breifat.

*Daeth y Sesiwn Gyhoeddus i ben am 13:15*



**Cyfarfu'r Bwrdd mewn Sesiwn Breifat i ystyried busnes o natur gyfrinachol, y byddai rhoi cyhoeddusrwydd iddo yn niweidiol i fudd y cyhoedd yn unol ag Adran 1 (2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960.**